Megan Griffiths

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Fel siaradwr Cymraeg brwd gyda gwreiddiau dwfn yn ein cymuned, rwy'n awyddus i ddod â'm mhrofiad a'm hymroddiad i Fwrdd CGGC. Yn fy rôl fel Arweinydd Gwirfoddolwyr, Cysylltiad a Digwyddiadau yn Crisis, mireiniais fy sgiliau mewn rheoli gwirfoddolwyr, cyd-gynhyrchu a chynllunio strategol, gan lwyddo i godi ymwybyddiaeth a hybu effaith. Mae fy rôl yn cynnwys goruchwylio prosiectau arwyddocaol, ymgysylltu â grwpiau amrywiol ac arwain digwyddiadau sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth.

Gwnaeth fy mhrofiad o fod yn ymddiriedolwr yn Discovery atgyfnerthu fy ymrwymiad i'r trydydd sector ymhellach. Roeddwn yn falch o lunio eu polisi Cymraeg, a sicrhaodd cynhwysiant a chynrychiolaeth. Gwnaeth yr Hyfforddiant i Ymddiriedolwyr Ifanc a'r cwrs, Sylfeini ar gyfer y Trydydd Sector, roi dealltwriaeth gadarn i mi o gyllid, llywodraethu a phenderfyniadau a yrrir gan ddata.

Gartref, mae fy nghytiad o ieir achub hyfryd, â'u phersonoliaethau unigryw, yn fy atgoffa o bwysigrwydd gwerthoedd fel caredigrwydd, gofal ac ail gyfle, yr wyf yn glynu atynt yn bersonol ac yn broffesiynol.

Fel arweinydd ifanc, rwy'n cyflwyno syniadau ffres a meddylfryd amrywiol ac yn awyddus i gyfrannu at weledigaeth CGGC. Yn angerddol am rym y trydydd sector i hybu newid, credaf y bydd fy safbwynt unigryw, ynghyd â'm harbenigedd proffesiynol ac ymroddiad i'r Gymraeg, yn asedau gwerthfawr i'r Bwrdd. Gofynnaf am eich pleidlais i barhau i wneud gwahaniaethau ystyrlon gyda'n gilydd.